

AROLYGIAETH GOFAL IECHYD CYMRU

Gwneud Gwahaniaeth

Cynllun Gweithredol 2019 - 2020

Cynllun Gweithredol 2019 - 2020

Cynnwys

4	Ein diben
5	Rhagair
6	Blaenoriaethau Strategol
8	Effaith ein Gwaith
10	Cymryd Camau
12	Bod yn fwy Gweladwy
14	Gwneud ein Gorau
16	Ein Gwaith
17	Ein Hadnoddau
18	Ymrwymïadau AGIC

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth. Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@llyw.cymru
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk



Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da.

Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn.

Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalu
- Cydweithredol
- Awdurdodol

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd gofal.

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant trwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da.

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.

Rhagair

Mae'n bleser gennyf gyflwyno ein Cynllun Gweithredol ar gyfer 2018 -19. Wrth i ni gychwyn ar ail flwyddyn ein strategaeth tair blynedd 'Gwneud Gwahaniaeth', rydym yn adeiladu ar sail gadarn er mwyn cyflawni ein nod o annog gwelliannau mewn gofal iechyd drwy wneud y gwaith cywir ar yr amser cywir yn y lle cywir; gan sicrhau bod yr hyn a wnawn yn cael ei gyfleu'n dda ac yn gwneud gwahaniaeth.

Mae'r cynllun hwn yn cynnwys manylion y gwaith rydym yn bwriadu'i wneud yn ystod 2019/20 tuag at gyflawni ein blaenoriaethau strategol. Mae hefyd yn darparu gwybodaeth am y meysydd eang rydym yn bwriadu eu hadolygu, ac yn adlewyrchu'r ffordd y byddwn yn rheoli ein rhaglen waith. Mae'r cynllun yn sicrhau ein bod yn bodloni ein gofynion statudol ac yn canolbwyntio ar feysydd o bryder a nodwyd gan y wybodaeth a gasglwn.

Wrth i ni symud drwy gyfnod o dwf a newid sylweddol yn y sefydliad, bydd y flwyddyn hon yn canolbwyntio'n helaeth ar feithrin ein gallu i gyflawni mwy ar gyfer pob un o'n blaenoriaethau strategol ac i baratoi ar gyfer ymateb i fframwaith deddfwriaethol newydd yn y dyfodol. Byddwn yn parhau i weithio i esblygu ac addasu ein dulliau o weithio wrth i bobl gael mynediad i fwy a mwy o'u gwasanaethau iechyd a gofal yn eu cartrefu a'u cymunedau eu hunain gan dimau amlbroffesiynol, amlddisgyblaethol.

Mae rôl gritigol AGIC o gadarnhau bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da wedi'i chydabod gan yr adnoddau newydd a ddyrannwyd i ni er mwyn cynyddu ein gweithgarwch craidd yn y GIG, gan gynnwys gwaith dilynol ar argymhellion blaenorol, a'r gallu i ymateb i wybodaeth sy'n dod i'r amlwg yn ystod y flwyddyn sy'n peri pryder ar unwaith. Byddwn hefyd yn cynyddu nifer yr adolygiadau thematig Cymru gyfan a wneir gan AGIC ac yn adeiladu ar y gwaith ar y cyd rydym eisoes wedi'i gyflawni gydag Arolygiaeth Gofal Cymru. Mae manylion penodol am yr hyn rydym yn bwriadu ei wneud wedi'u rhestru yn ein Matrics Ymrwymadau (Atodiad A).

Byddwn hefyd yn gweithio i adeiladu a mireinio ein dull o gyd-arolygu llwybrau gofal a modelau gofal newydd sy'n deillio o waith y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a rhaglen drawsnewid ehangach GIG Cymru.

Byddwn yn parhau â'n rhaglen newid TGCh uchelgeisiol. Yn ystod blwyddyn gyntaf y rhaglen, sydd â'r nod o'n gwneud yn sefydliad mwy effeithlon, rydym wedi symud tuag at arolygiadau di-bapur a thaliadau ar-lein. Eleni, byddwn yn buddsoddi'n sylweddol mewn rheoli ein data'n fwy effeithiol, gan ein helpu i reoli ein gwaith a'n cydberthnasau, ac i gasglu gwybodaeth well, gan gynyddu ein heffaith fel sefydliad. Bydd hyn, ynghyd â chynyddu buddsoddiad yn ein gwaith dysgu a datblygu, yn sicrhau ein bod yn datblygu ein pobl a'n sefydliad er mwyn gwneud y gwaith gorau posibl.

Os oes gennych unrhyw sylwadau ar ein gwaith, eich profiad neu wasanaethau gofal iechyd yn gyffredinol, cysylltwch â ni - byddem wrth ein bodd yn clywed gennych.

Dr Kate Chamberlain,
Prif Weithredwr

Dyma ein blaenoriaethau strategol:

Sicrhau bod ein gwaith yn cael yr effaith orau bosibl er mwyn cefnogi'r gwaith o wella gofal iechyd

Cymryd camau lle na chaiff safonau eu cyflawni

Bod yn fwy gweladwy

Datblygu ein pobl a'n sefydliad i wneud y gwaith gorau posibl.

Crynodeb o'n cynllun 2019-20

Yn ogystal â'r arolygiadau, yr adolygiadau, y gweithgareddau rheoleiddio a'r cyfrifoldebau statudol a amlinellwyd yn ein Matrics Ymrwymadau yn Atodiad A, mae'r canlynol yn disgrifio'r ffordd y mae AGIC yn bwriadu gweithio tuag at ei nodau strategol yn ystod 2019-20:

Blaenoriaethau Strategol

Sicrhau bod ein gwaith yn cael yr effaith orau bosibl er mwyn cefnogi'r gwaith o wella gofal iechyd

Cymryd camau lle na chaiff safonau eu cyflawni

Bod yn fwy gweladwy

Datblygu ein pobl a'n sefydliad i wneud y gwaith gorau bosibl

Camau gweithredu

Gwella ein dull o ddadansoddi, defnyddio a rhannu gwybodaeth

Cydweithio'n agos ag arolygiaethau eraill, yn enwedig Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

Gwneud yn siŵr bod ein gwaith yn hawdd ei ddeall

Camau gweithredu

Monitro ein dull o gynnal arolygiadau ac adolygiadau er mwyn sicrhau eu bod yn parhau'n berthnasol ac yn effeithiol

Gwella'r ffordd rydym yn cyfathrebu â darpar-ddarparwyr gofal iechyd annibynnol a darparwyr presennol

Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i adolygu cwmpas y pwerau cyfreithiol sydd ar gael i AGIC, a'r defnydd a wneir ohonynt

Y pethau allweddol i'w cyflawni yn ystod 2019-20

Datblygu ein systemau gwybodaeth a data er mwyn sicrhau bod gwybodaeth am leoliadau gofal iechyd ar gael yn haws i arolygwyr yn y maes ar lawr gwlad.

Parhau i ddatblygu cydberthnasau gydag amrywiaeth eang o bartneriaid er mwyn sicrhau ein bod yn defnyddio gwybodaeth yn dda i lywio ein gwaith.

Parhau i ddatblygu ein trefniadau ar gyfer gweithio gydag AGC ar adolygiadau thematig cenedlaethol, yn enwedig mewn meysydd lle mae angen i wasanaethau iechyd a gofal gael eu darparu mewn ffordd integredig.

Cynnal gwaith ymchwil i gefnogi rhaglen ehangach o adolygiadau thematig cenedlaethol yn ogystal â chyfrës o adolygiadau arbennig eu pwyslais.

Dechrau prosiect â chwmpas eang i adolygu ein dull cyffredinol o adrodd ar ganfyddiadau ein harolygiadau.

Y pethau allweddol i'w cyflawni yn ystod 2019-20

Asesu addasrwydd ein dulliau arolygu yn rheolaidd, gan sefydlu rhaglen waith i ddiweddarau'r dulliau hyn lle y bo angen.

Rhoi trefniadau ar waith i oruchwylio a chydgylltu gweithgareddau dilynol AGIC yn llym.

Sicrhau bod ein dull o orfodi yn y sector annibynnol wedi'i sefydlu'n llawn, gan gynnwys hyfforddi staff a gwella'r trefniadau ar gyfer olrhain camau allweddol o'n proses darparwyr anghofrestredig.

Parhau i wella'r ffordd rydym yn rhyngweithio â'r rheini sy'n darparu gwasanaethau gofal iechyd annibynnol yng Nghymru, neu sy'n ystyried eu darparu. Byddwn yn cwblhau adolygiad o ddeunyddiau cyfarwyddyd ar-lein ac yn cysylltu'n amlach â sefydliadau rhwng arolygiadau.

Parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru ar ddatblygiadau polisi a darpariaethau deddfwriaethol uniongyrchol yn ymwneud â chyflwyno dyletswydd gonestrwydd a dyletswydd ansawdd, yn ogystal â threfniadau llywodraethu bwrdd newydd a chyflwyno corff llais defnyddwyr newydd.

Camau gweithredu

Datblygu a gwella'r ffordd rydym yn gwrandao ar y cyhoedd

Gwella'r ffordd rydym yn rhoi gwybod i'r cyhoedd a gweithwyr proffesiynol am yr hyn a wnawn

Datblygu'r ffordd rydym yn cynnwys y cyhoedd yn ein gwaith

Y pethau allweddol i'w cyflawni yn ystod 2019-20

Datblygu'r ffordd rydym yn ceisio barn y cyhoedd ar gyfer adolygiadau thematig cenedlaethol er mwyn sicrhau ein bod yn taflu'r rhwyd mor eang â phosibl gan gynnwys grwpiau defnyddwyr gwasanaethau a fforymau cleifion.

Ymgysylltu ag awdurdodau lleol a'r trydydd sector i godi ein proffil mewn cymunedau a nodi sut y gallwn ddefnyddio rhwydweithiau sefydledig i gyfleu ein diben, ein gwaith a'n canfyddiadau.

Gweithio gydag Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC), cyrff proffesiynol yn ogystal â lleoliadau gofal iechyd preifat a'r GIG i feithrin dealltwriaeth gadarn o'n rôl a'n diben a sut y gallwn gydweithio i gefnogi gwelliant.

Byddwn yn parhau i adeiladu ar ein henw da a pha mor weladwy ydym drwy fynd i gynadleddau a seminarau allweddol i gyfleu ein canfyddiadau a'r gwersi sy'n deillio o'n gwaith.

Camau gweithredu

Rhoi rhaglen newid ar waith i wella ffyrdd AGIC o weithio

Buddsoddi yn y gwaith o ddatblygu sgiliau a gwybodaeth ein pobl a'n hadolygwyr

Datblygu strategaeth gweithlu sy'n ystyried olyniaeth a llwybrau gyrfa

Y pethau allweddol i'w cyflawni yn ystod 2019-20

Byddwn yn cyflawni cynllun dysgu a datblygu yn unol â'n strategaeth newydd.

Byddwn yn adnewyddu ac yn gwella ein proses sefydlu er mwyn sicrhau bod staff newydd yn effeithiol yn eu rolau mor gyflym â phosibl.

Byddwn yn datblygu pecyn hyfforddi llawn ar gyfer pob Rheolwr Perthynas GIG er mwyn datblygu eu sgiliau a'u profiad yn unol â galwadau'r rôl.

Byddwn yn atgyfnerthu'r trefniadau hyfforddi, datblygu a rheoli perfformiad rydym yn eu darparu i'n hadolygwyr cymheiriaid clinigol.

Byddwn yn gwerthuso'r defnydd o adolygwyr lleyg gwirfoddol.

Byddwn yn dechrau rhoi System Rheoli Data a Gwybodaeth newydd ar waith.

Sicrhau bod ein gwaith yn cael yr effaith orau bosibl er mwyn cefnogi'r gwaith o wella gofal iechyd

Mae AGIC yn rhoi pwyslais cryf ar ddefnyddio gwybodaeth i ddatblygu ei rhaglen waith. Drwy wneud y gwaith cywir ar yr amser cywir yn y lle cywir, gall AGIC gyflawni elfen allweddol o'i rôl, sef annog gwelliannau mewn gofal iechyd.

Rhyngddynt, mae gan sefydliadau sydd â dyletswydd i graffu ar ofal iechyd yng Nghymru gyfoeth o wybodaeth ar gael iddynt. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae AGIC wedi parhau i gydweithio'n agos â'r sefydliadau partner hyn; gan gynnal cynadleddau rheolaidd â chydweithwyr mewn Cynghorau Iechyd Cymuned bob chwe mis. Mae'r cyfarfodydd hyn yn gyfle i ni rannu gwybodaeth, osgoi dyblygu gwaith, cydweithio a chalibradu ein barn ar y risgiau a'r problemau a geir ledled Cymru. Byddwn yn parhau i weithio gyda'n partneriaid dros y flwyddyn sydd i ddod i adolygu memoranda cyd-ddealltwriaeth a threfniadau rhannu data, neu ddatblygu rhai newydd, a fydd yn caniatáu i ni rannu gwybodaeth gritigol yn ôl yr angen. Mae hyn yn cynnwys trefniadau i fireinio ein prosesau cynllunio, gan ddefnyddio'r wybodaeth sydd ar gael er mwyn sicrhau ein bod yn defnyddio ein hadnoddau'n effeithiol, ac yn arbennig lle bo camau gorfodi ar waith yn erbyn darparwr gofal iechyd sy'n gweithredu mewn mwy nag un wlad.

Rydym wedi parhau i fireinio ein prosesau cynllunio, gan ddefnyddio'r wybodaeth sydd ar gael er mwyn sicrhau ein bod yn defnyddio ein hadnoddau'n effeithiol. Mae ein Rheolwr Perthynas GIG yn parhau i gyflawni rôl hanfodol fel y pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd, gan asesu gwybodaeth a risgiau a diffinio ein rhaglenni gwaith arolygu ac adolygu. Yn 2019/20 rydym wedi ymrwymo i gyflawni mwy o adolygiadau thematig ac arbennig ac i gyfeirio mwy o adnoddau tuag at ddilyn ar yr argymhellion y byddwn yn eu gwneud. Mae adolygiadau arbennig o sefydliadau'r GIG yn ein galluogi i edrych yn fanylach ar y trefniadau rheoli ar gyfer darparu gwasanaethau

neu swyddogaethau. Mae hyn yn arbennig o fuddiol wrth ystyried cyfrifoldebau tair Ymddiriedolaeth y GIG yng Nghymru. Wrth i ni geisio cyflawni mwy o adolygiadau thematig, bydd ein Bwrdd Llywio Thematig a gyfansoddwyd yn ddiweddar yn ein helpu i werthuso tystiolaeth berthnasol o amrywiaeth o ffynonellau er mwyn datblygu a darparu'r adolygiadau mwyaf priodol.

Gan ganolbwyntio ar yr heriau a bennir yn yr Adolygiad Seneddol o lechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru (2018), mae AGIC yn parhau i weithio gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ar adolygiadau ac arolygiadau sy'n croesi ffin iechyd a gofal cymdeithasol. Yn 2018/19, gwnaethom gydweithio'n agos ar gyhoeddi adroddiad cenedlaethol ar Dimau Iechyd Meddwl Cymunedol ac rydym yn parhau i gynnal arolygiadau lleol ar y cyd yn y maes hwn. Ar ddechrau 2019, gwnaethom helpu AGC i gynnal adolygiad cenedlaethol o atal a hyrwyddo annibyniaeth ar gyfer oedolion hŷn (dros 65 oed) a oedd yn byw yn y gymuned. Mae AGC hefyd yn rhanddeiliad allweddol yng ngwaith parhaus AGIC ar y ffordd y caiff gofal a thriniaeth ei darparu i bobl hŷn sydd wedi cwmpo, a sut y gellir osgoi cwmpadau.

Rydym wedi gwella'r ffordd yr awn ati i archwilio cwmpas ein hadolygiadau thematig cenedlaethol a'n hadolygiadau arbennig, a'u cynnal a'u cyflwyno. Yn 2019/20, byddwn yn dechrau ar ddarn mwy o waith i adolygu ein dull cyffredinol o adrodd ar ganfyddiadau ein harolygiadau, gan gynnwys asesiad o b'un a yw'r adroddiadau hyn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen i bobl yn y ffordd y maent ei hangen.

'Rydym wedi parhau i fireinio ein prosesau cynllunio, gan ddefnyddio'r wybodaeth sydd ar gael er mwyn sicrhau ein bod yn defnyddio ein hadnoddau'n effeithiol.'

Camau gweithredu

Gwella ein dull o ddadansoddi, defnyddio a rhannu gwybodaeth.

Cydweithio'n agos ag arolygiaethau eraill, yn enwedig Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC).

Gwneud yn siŵr bod ein gwaith yn hawdd ei ddeall.

Yn ystod 2019-20 byddwn yn gwneud y canlynol:



Datblygu ein systemau gwybodaeth a data er mwyn sicrhau bod gwybodaeth am leoliadau gofal iechyd ar gael yn haws i arolygwyr yn y maes ar lawr gwlad.

Parhau i ddatblygu cydberthnasau gydag amrywiaeth eang o bartneriaid er mwyn sicrhau y gallwn ddefnyddio gwybodaeth i lywio ein gwaith.

Parhau i ddatblygu ein trefniadau ar gyfer gweithio gydag AGC ar adolygiadau thematig cenedlaethol, yn enwedig mewn meysydd lle mae angen i wasanaethau iechyd a gofal gael eu darparu mewn ffordd integredig.

Cynnal gwaith ymchwil i gefnogi rhaglen ehangach o adolygiadau thematic cenedlaethol yn ogystal â chyfres o adolygiadau arbennig eu pwyslais.

Dechrau prosiect â chwmpas eang i adolygu ein dull cyffredinol o adrodd ar ganfyddiadau ein harolygiadau.



Cymryd camau lle na chaiff safonau eu cyflawni

Mae gallu AGIC i gymryd camau amserol pan na chaiff safonau eu bodloni yn dibynnu ar nifer o ffactorau. Mae'r ffactorau hyn yn cynnwys natur y fframweithiau cyfreithiol sy'n diffinio ein pwerau, ansawdd ac amseroldeb ein gwaith, y ffordd rydym yn ymgysylltu â sefydliadau gofal iechyd a'r ffordd rydym yn uwchgyfeirio materion.

Mae AGIC yn cynnal amrywiaeth eang o arolygiadau ac adolygiadau ac yn ystod 2018, gwnaethom greu Panel Methodoleg er mwyn sicrhau ein bod yn adolygu, diweddarau a datblygu ein dulliau o weithio, ac yn eu rheoli a'u blaenoriaethu. Mae hyn wedi ein galluogi i lunio rhaglen o waith methodoleg ar gyfer 2019/20 sy'n sicrhau y gallwn barhau i asesu darpariaeth iechyd yn effeithiol yn erbyn safonau perthnasol a gweithredu lle nad yw'r safonau hynny'n cael eu bodloni. Bydd ystod amrywiol o randdeiliaid yn parhau i roi sylwadau i AGIC fel rhan o'r broses o ddatblygu'r fethodoleg, a bydd grwpiau rhanddeiliaid yn cael eu hymgynnull lle y bydd hyn yn fuddiol. Byddwn hefyd yn parhau i ofyn am gyfraniadau gan adolygwyr cymheiriaid arbenigol sy'n cefnogi ein harolygiadau.

Yn ystod 2018/19, gwnaethom atgyfnerthu ein dull o orfodi yn y sector annibynnol, gan gynnwys ein proses Gwasanaeth sy'n Peri Pryder. Gwnaethom atal darparwr annibynnol a chyflawni nifer o arolygiadau â phwyslais brys. Llwyddodd AGIC i erlyn darparwr anghofrestredig ym mis Rhagfyr 2018 a bu'r achos hwn yn gyfle i ni fyfyrto ar y camau rydym yn eu cymryd pan fyddwn yn cael gwybodaeth am ddarparwyr o'r fath. O ganlyniad i'r gwaith hwn, byddwn yn cyflwyno targedau perfformiad newydd yn y maes hwn yn 2018/19.

Yn 2018, cyhoeddodd AGIC bolisi yn nodi'r camau dilynol y mae'n eu cymryd yn ei harolygiadau a'i hadolygiadau. Yn 2019/20, byddwn yn cyhoeddi polisi gwaith dilynol a fydd yn rhoi mwy o fanylion am y trefniadau rydym yn eu rhoi ar waith ar gyfer cydgyssylltu a chyflawni ein holl waith dilynol.

Bydd y systemau sy'n cael eu datblygu fel rhan o'n rhaglen newid TGCh yn ein galluogi i wella'r ffordd rydym yn rhyngweithio ac yn casglu gwybodaeth am sefydliadau yng Nghymru. Bydd hyn yn ei dro yn ein cefnogi i wneud penderfyniadau amserol ac o ansawdd da, yn arbennig lle nad yw safonau'n cael eu bodloni a bod angen uwchgyfeirio. Yn ogystal, rydym wedi dechrau darn o waith i adolygu'r canllawiau a gyhoeddwyd ar ein gwefan fel bod y rheini sy'n darparu gwasanaethau gofal iechyd annibynnol yng Nghymru, neu'r rheini sy'n ystyried gwneud hynny, yn deall eu cyfrifoldebau cyfreithiol.

Mae AGIC yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru ar ddatblygiadau polisi a deddfwriaethol uniongyrchol yn ymwneud â chyflwyno dyletswydd gonestrwydd a dyletswydd ansawdd, yn ogystal â threfniadau llywodraethu bwrdd newydd a chyflwyno corff llais defnyddwyr newydd.



Camau gweithredu

Monitro ein dull o gynnal arolygiadau ac adolygiadau er mwyn sicrhau eu bod yn parhau'n berthnasol ac yn effeithiol.

Gwella'r ffordd rydym yn cyfathrebu â darpar-ddarparwyr gofal iechyd annibynnol a darparwyr presennol.

Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i adolygu cwmpas y pwerau cyfreithiol sydd ar gael i AGIC, a'r defnydd a wneir ohonynt.

Yn ystod 2019-20 byddwn yn gwneud y canlynol:

Asesu addasrwydd ein dulliau arolygu yn rheolaidd, gan sefydlu rhaglen o waith i ddiweddarau'r dulliau hyn lle y bo angen.

Rhoi trefniadau ar waith i oruchwylio a chydgyssylltu gweithgareddau dilynol AGIC yn llym.

Sicrhau bod ein dull o orfodi yn y sector annibynnol wedi'i sefydlu'n llawn, gan gynnwys hyfforddi staff a gwella'r trefniadau ar gyfer olrhain camau allweddol o'n proses darparwyr anghofrestredig.

Parhau i wella'r ffordd rydym yn rhyngweithio â'r rheini sy'n darparu gwasanaethau gofal iechyd annibynnol yng Nghymru, neu sy'n ystyried eu darparu. Byddwn yn cwblhau adolygiad o ddeunyddiau cyfarwyddyd ar-lein ac yn cysylltu'n amlach â sefydliadau rhwng arolygiadau.

Parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru ar ddatblygiadau polisi a deddfwriaethol uniongyrchol yn ymwneud â chyflwyno dyletswydd gonestrwydd a dyletswydd ansawdd, yn ogystal â threfniadau llywodraethu bwrdd newydd a chyflwyno corff llais defnyddwyr newydd.

Bod yn fwy gweladwy

Er mwyn cyflawni ein nod strategol, mae angen i ni adeiladu ar ein gwaith i wella dealltwriaeth y cyhoedd a rhanddeiliaid o rôl AGIC a'r gwaith a wnawn.

Ym mlwyddyn gyntaf ein strategaeth, rydym wedi gweithio i wella'r ffordd rydym yn defnyddio cyfryngau digidol a thraddodiadol i gyfathrebu am ein rôl, ein diben a'n canfyddiadau. Rydym wedi cyflwyno dulliau digidol newydd o geisio barn a safbwyntiau gan gleifion yn uniongyrchol, a hynny cyn ac yn ystod arolygiadau. Rydym hefyd wedi diweddarau dogfennau cyhoeddus, wedi ehangu ein cynulleidfa ar y cyfryngau cymdeithasol ac wedi mynychu digwyddiadau uchel eu proffil er mwyn cyfleu ein diben a chanfyddiadau ein gwaith.

Yn 2019/20, byddwn yn adeiladu ar y llwyddiannau hyn er mwyn gwella ein dulliau o gyfathrebu ac ymgysylltu er mwyn i bobl allu dweud wrthym am eu profiadau ac i ni allu egluro ein canfyddiadau. Byddwn yn cyflawni hyn drwy ddatblygu ein defnydd o grwpiau defnyddwyr gwasanaethau, fforymau cleifion a thrwy ddatblygu ein presenoldeb ar y cyfryngau cymdeithasol, a hynny o ran ein dilynwyr ac o ran lledaenu gwybodaeth drwy ein partneriaid gan gynnwys awdurdodau lleol, y trydydd sector a grwpiau cymunedol.

Mae hefyd yn bwysig ein bod yn adolygu'r ffordd rydym yn cyfleu canfyddiadau allweddol ein gwaith er mwyn iddynt ennyn mwy o sylw, a'u gwneud yn haws i bobl gael gafael arnynt a'u rhannu ar y cyfryngau cymdeithasol.

Byddwn yn adolygu'r ffordd rydym yn ymgysylltu â rhanddeiliaid a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol er mwyn sicrhau eu bod yn gallu cyfrannu at ddatblygu gwaith AGIC a meithrin ymwybyddiaeth o'n rôl a'n diben.

Byddwn yn parhau i ddefnyddio Arolwg Omnibws Cymru i fesur dealltwriaeth y cyhoedd o ddiben a gwaith AGIC ac yn ceisio adborth gan rhanddeiliaid a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol er mwyn mesur cynnydd yn erbyn y flaenoriaeth hon.

'Rydym hefyd wedi diweddarau dogfennau cyhoeddus, wedi ehangu ein cynulleidfa ar y cyfryngau cymdeithasol ac wedi mynychu digwyddiadau uchel eu proffil er mwyn cyfleu ein diben a chanfyddiadau ein gwaith.'

Camau gweithredu

Datblygu a gwella'r ffordd rydym yn gwrandao ar y cyhoedd.

Gwella'r ffordd rydym yn rhoi gwybod i'r cyhoedd a gweithwyr proffesiynol am yr hyn a wnawn.

Datblygu'r ffordd rydym yn cynnwys y cyhoedd yn ein gwaith.


Yn ystod 2019-20:

Datblygu'r ffordd rydym yn ceisio barn y cyhoedd ar gyfer adolygiadau thematig cenedlaethol er mwyn sicrhau ein bod yn taflu'r rhwyd mor eang â phosibl gan gynnwys grwpiau defnyddwyr gwasanaethau a fforymau cleifion.

Ymgysylltu ag awdurdodau lleol a'r trydydd sector i godi ein proffil mewn cymunedau a nodi sut y gallwn ddefnyddio rhwydweithiau sefydledig i gyfleu ein diben, ein gwaith a'n canfyddiadau.

Gweithio gydag Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC), cyrff proffesiynol yn ogystal â lleoliadau gofal iechyd preifat a'r GIG i feithrin dealltwriaeth gadarn o'n rôl a'n diben ym mhob rhan o'r sector gofal iechyd.

Byddwn yn parhau i adeiladu ar ein henw da a pha mor weladwy ydym drwy fynd i gynadleddau a seminarau allweddol i gyfleu ein canfyddiadau a'r gwersi sy'n deillio o'n gwaith.





Datblygu ein pobl a'n sefydliad i wneud y gwaith gorau posibl

Ased gorau AGIC yw ei phobl. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r sefydliad wedi gwneud camau breision wrth ddatblygu fel sefydliad. Mae ein harolwg staff diweddaraf yn dangos gwelliannau ym mhob maes.

Fodd bynnag, yn ystod cyfnod pan mae'r sefydliad yn tyfu a bod ganddi raglen waith uchelgeisiol, mae'n bwysicach nag erioed bod gan ein pobl yr offer, y sgiliau a'r wybodaeth gywir i gyflawni gwaith heriol AGIC.

Byddwn yn parhau â'n rhaglen newid TGCh, gan ymwreiddio datblygiadau newydd yn ein harferion gwaith ac ar yr un pryd, buddsoddi'n sylweddol yn y gwaith o reoli ein data'n fwy effeithiol. Bydd hyn yn ein helpu i reoli ein gwaith a'n cydberthnasau, ac i gasglu gwybodaeth well, gan gynyddu ein heffaith fel sefydliad.

Ar ôl datblygu strategaeth dysgu a datblygu tair blynedd ar gyfer y sefydliad, byddwn yn parhau i wella'r cyfleoedd dysgu sydd ar gael i bob aelod o'n staff a'n hadolygwyr. Byddwn yn buddsoddi mwy mewn dysgu a datblygu ac yn sicrhau bod pob un ohonynt yn cael cyfle i wneud cais am hyfforddiant sy'n cyfateb â'u hanghenion datblygu personol a phroffesiynol eu hunain.

Mae ein Rheolwyr Perthynas GIG yn cyflawni rôl hanfodol a byddwn yn gwella'r rhaglen hyfforddi rydym yn eu cynnig iddynt er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i ddatblygu'r sgiliau i'w galluogi i berfformio'n effeithiol yn y rôl bwysig hon.

Byddwn hefyd yn adeiladu ar ein trefniadau gwell ar gyfer cynllunio'r gweithlu, er mwyn datblygu strategaeth gweithlu sy'n ystyried olyniaeth a llwybrau gyrfa.

'Byddwn yn buddsoddi mwy mewn dysgu a datblygu ac yn sicrhau bod pob un ohonynt yn cael cyfle i wneud cais am hyfforddiant sy'n cyfateb â'u hanghenion datblygu personol a phroffesiynol eu hunain.'

Camau gweithredu

Rhoi rhaglen newid ar waith i wella ffyrdd AGIC o weithio.

Buddsoddi mewn datblygu sgiliau a gwybodaeth ein pobl a'n hadolygwyr.

Datblygu strategaeth Gweithlu sy'n ystyried olyniaeth a llwybrau gyrfa.

Yn ystod 2019-20:

Byddwn yn cyflawni cynllun dysgu a datblygu yn unol â'n strategaeth newydd.

Byddwn yn adnewyddu ac yn gwella ein proses sefydlu er mwyn sicrhau bod staff newydd yn effeithiol yn eu rolau mor gyflym â phosibl.

Byddwn yn datblygu pecyn hyfforddi llawn ar gyfer pob Rheolwr Perthynas GIG er mwyn datblygu eu sgiliau a'u profiad yn unol â galwadau'r rôl.

Byddwn yn atgyfnerthu'r trefniadau hyfforddi, datblygu a rheoli perfformiad rydym yn eu darparu i'n hadolygwyr cymheiriaid clinigol.

Gwerthuso'r defnydd o adolygwyr llyg gwirfoddol

Byddwn yn dechrau rhoi System Rheoli Data a Gwybodaeth newydd ar waith

Ein gwaith

Mae ein gwaith wedi'i lywio gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Wrth wneud penderfyniadau am y gwaith a wnawn drwy arolygu, adolygu a gwaith dilynol, rydym yn ystyried anghenion byrdymor a hirdymor cleifion ac yn gweithio'n gydweithredol gyda phartneriaid, cleifion a'r gymuned i gefnogi gwelliannau.

Rydym yn gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da. Er mwyn gwneud hyn, rydym yn ceisio sicrhau bod gwasanaethau'n darparu gofal diogel ac effeithiol sy'n bodloni safonau cydnabyddedig.

Rydym yn rheoleiddio ac yn arolygu gofal iechyd annibynnol ac rydym yn arolygu'r GIG yng Nghymru. Mae gofal iechyd annibynnol yn cynnwys amrywiaeth eang o ddarparwyr o ysbyty preifat llawn i salon harddwch sy'n defnyddio laserau. Mae ein hymdriniaeth â'r GIG yn amrywio o ddeintyddiaeth a meddygon teulu i ysbytai.

Mae AGIC hefyd yn gweithio gyda chyrrff eraill i edrych ar ofal iechyd mewn lleoliadau eraill megis adolygiad

clinigol o farwolaethau mewn carchardai a gynhelir gyda'r Ombwdsmon Carchardai a Phrofiannaeth, ac adolygiadau'r Timau Troseddau Ieuencid a arweinir gan Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi.

Rydym yn rhoi'r claf wrth wraidd popeth a wnawn, ac rydym yn gwneud yn siŵr bod ein gwaith yn hyrwyddo ac yn diogelu cydraddoldeb a hawliau dynol i bawb. Mae gennym gyfrifoldeb penodol i ystyried hawliau pobl agored i niwed, megis y rheini sy'n cael gofal o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl neu Drefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid y Ddeddf Galluedd Meddyliol. Mae ein cyfrifoldebau mewn perthynas â iechyd meddwl yn cynnwys y GIG a'r sector annibynnol

Safonau Perfformiad

Rydym yn pennu safonau amlwg ar gyfer amseroldeb ein hadroddiadau:

- Lle bo angen sicrwydd ar unwaith yn dilyn arolygiad y GIG, caiff llythyrau eu cyhoeddi i Brif Weithredwr y sefydliad o fewn 2 ddiwrnod
- Lle bo angen gweithredu ar unwaith yn dilyn arolygiad yn y sector annibynnol, caiff y gwasanaeth hysbysiad diffyg cydymffurfio o fewn 2 ddiwrnod
- Rydym yn cyhoeddi pob adroddiad o fewn 3 mis i arolygiad fel y nodir yn ein polisi cyhoeddi

Rydym hefyd yn defnyddio ein Cynllun Gweithredu i nodi'n glir ymhle rydym yn bwriadu targedu ein hadnoddau yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.

Rydym yn cyhoeddi ein perfformiad yn erbyn y safonau hyn yn ein Hadroddiad Blynnyddol. Caiff ein Hadroddiad Blynnyddol ar gyfer 2018-19 ei gyhoeddi ym mis Gorffennaf 2019.

Ein hadnoddau

Ar gyfer 2019/20, mae ein cyllideb wedi cynyddu i oddeutu £4.2 miliwn. Bydd hyn yn ein galluogi i gynyddu ein hymdriniaeth â gweithgarwch craidd yn y GIG, gan gynnwys gwaith dilynol ar argymhellion blaenorol, a'r gallu i ymateb i wybodaeth sy'n dod i'r amlwg yn ystod y flwyddyn sy'n peri pryder ar unwaith. Bydd y cyllid hwn hefyd yn ein galluogi i gynnal adolygiadau penodol wedi'u teilwra ac i gynyddu nifer yr adolygiadau thematig Cymru gyfan a gynhelir gan AGIC, gan gynnwys adolygiadau ar y cyd ag AGC.

Yn ogystal, dyrannwyd cyllid nad yw'n gyllid cylchol i gefnogi'r gwaith o ddatblygu systemau TGCh newydd.

Mae gennym swyddi cyfwerth â 78 aelod o staff llawn amser.

Rydym yn dibynnu ar gyfraniad adolygwyr cymheiriaid a llyeg er mwyn helpu i gyflawni ein rhaglen arolygu ac adolygu. Ar hyn o bryd, mae gennym banel o fwy

na 150 o adolygwyr cymheiriaid arbenigol y mae eu cefndiroedd yn cynnwys nyrsys arbenigol a chyffredinol, meddygon teulu, deintyddion, anesthetiddion, a rheolwyr practisau meddygon teulu. Mae gennym hefyd arbenigwyr ym maes Gweinyddu'r Ddeddf Iechyd Meddwl a phanel o seiciatryddion sy'n darparu ein gwasanaeth meddyg a benodwyd i roi ail farn. Rydym hefyd yn ddiolchgar iawn i'r naw ar hugain o unigolion sydd wedi cytuno i fod ar ein panel o adolygwyr llyeg.

Tim	Swyddi amser llawn
Uwch Swyddogion Gweithredol	3
Arolygu, Rheoleiddio a Phryderon	39
Partneriaethau, Gwybodaeth a Methodoleg	9
Strategaeth, Polisi a Chyfathrebu	5
Cyngor clinigol (gan gynnwys y gwasanaeth meddyg a benodwyd i roi ail farn)	4
Cymorth Busnes (gan gynnwys recriwtio, dyrannu a chefnogiaeth adolygyddion panel)	18
Cyfanswm	78



Atodiad A – Matrics Ymrwymiadau

Mae'r tabl canlynol yn rhestr o ymrwymiadau penodol AGIC ar gyfer 2019-20

Rheoleiddio gofal iechyd annibynnol

Yr hyn sydd i'w gyflawni

Prosesu ceisiadau i gofrestru, neu newidiadau i gofrestru, mewn modd amserol. Sicrhau bod pob ymgeisydd yn gallu dangos ei fod yn bodloni'r rheoliadau perthnasol a'r safonau gofynnol

Mesurwyd drwy

- Penderfynu ar geisiadau i gofrestru o fewn 12 wythnos o'r cais llawn a chyflawn

Cynnal rhaglen o ymweliadau â darparwyr yr amheuir nad ydynt wedi'u cofrestru
- Yn ôl yr angen

- Nifer yr ymweliadau a gynhaliwyd
- Nifer yr arolygiadau a gynhaliwyd
- Nifer yr adroddiadau a gyhoeddir 3 mis ar ôl yr arolygiad

Darparu rhaglen o arolygiadau mewn lleoliadau annibynnol
- Tua 27 ar gyfer laserau
- Tua 19 ar gyfer lleoliadau nad oes ganddynt laser, ac eithrio iechyd meddwl

Sicrhau yr ymdrinnir â phryderon a hysbysiadau Rheoliad 30/31 yn mewn modd amserol a phroffesiynol

- Nifer y pryderon a ddaw i law
- Nifer yr hysbysiadau Rheoliad 30/31 a ddaw i law
- Dadansoddi'r ffynhonnell a gweithredu

Arolygu'r GIG

Yr hyn sydd i'w gyflawni

Cynnal rhaglen arolygu eang yn y GIG wedi'i lywio gan wybodaeth ac asesiad o'r risg gan gynnwys tua
- 31 o arolygiadau cyffredinol o ysbytai
- 36 o arolygiadau o feddygon teulu
- 75 o arolygiadau deintyddol
- 5 arolygiad Rheoliadau Ymbelydredd Ioneiddio (Amlygiad Meddygol)
- 6 arolygiad o wasanaethau llawfeddygol
- O'r arolygiadau hyn, mae 23 yn cynnwys elfen o weithredu dilynol o arolygiadau a gynhaliwyd yn flaenorol

Mesurwyd drwy

- Nifer yr arolygiadau a gynhaliwyd

Parhau â'n rhaglen o adolygiadau thematig cenedlaethol gan gynnwys:
- Gofal Argyfwng mewn iechyd meddwl
- Gwasanaethau Mamolaeth
- Llwybrau Gofal i'r henoed yng Nghymru:
Canolbwyntio ar gwmpadau
- Adolygiad Cenedlaethol o atal a hyrwyddo annibyniaeth ar gyfer oedolion hŷn (dros 65 oed) sy'n byw yn y gymuned.

- Cyhoeddi cylch gorchwyl pob prosiect
- Cyhoeddi adolygiad thematig

Cynnal adolygiad lefel uchel o bob corff y GIG drwy
- Ddatblygu'r swyddogaeth Rheoli Perthynas ymhellach
- Llunio Datganiad Blynyddol ar gyfer pob Bwrdd Iechyd ac Ymddiriedolaeth y GIG

- Cyhoeddi datganiadau blynyddol byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau'r GIG

Ein gwaith yn y maes iechyd meddwl

Yr hyn sydd i'w gyflawni

Cynnal rhaglen o arolygiadau mewn lleoliadau iechyd meddwl annibynnol a'r GIG, gan gynnwys tua
- 15 o unedau iechyd meddwl y GIG
- 14 o unedau iechyd meddwl annibynnol

Mesurwyd drwy

- Nifer yr arolygiadau a gynhaliwyd

Mae arolygiadau o Unedau Iechyd Meddwl yn cynnwys adolygu'r ffordd y caiff y Ddeddf Iechyd Meddwl ei chymhwyso
- 7 arolygiad o Dimau Iechyd Meddwl Cymunedol

Darparu gwasanaeth meddyg a benodwyd i roi ail farn ar gyfer tua 1,000 o geisiadau SOAD

- Cyhoeddi Dangosyddion Perfformiad Allweddol

Rhannu ein canfyddiadau

Yr hyn sydd i'w gyflawni

Cyhoeddi adroddiadau o bob un o'n harolygiadau ac adolygu gweithgarwch yn unol â'n safonau perfformiad.

Mesurwyd drwy

- Cyhoeddi adroddiadau
- Amserlen Gyhoeddi
- Cyhoeddi perfformiad AGIC yn erbyn targedau

Rhannu ein canfyddiadau a'n hargymhellion yn rhagweithiol â rhanddeiliaid, darparwyr gwasanaethau a'r cyhoedd er mwyn dylanwadu ar welliannau yn y maes gofal iechyd, a'u hysgogi. Yn arbennig mewn cysylltiad â'r canlynol:

- Cyhoeddi a rhannu ein canfyddiadau mewn nifer o ffyrdd gan gynnwys:
- Cynnal digwyddiadau dysgu
- Dosbarthu bwletinâu dysgu
- Dosbarthu astudiaethau achos o arfer da
- Gwella cynnwys y wefan

- Arolygiadau o Ysbytai
- Practisau Meddygon Teulu
- Practisau Deintyddol
- Adroddiad Monitro Blynyddol ar y Ddeddf Iechyd Meddwl
- Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS)
- Rheoliadau Ymbelydredd Ioneiddio (Amlygiad Meddygol)
- Laserau
- Adroddiad Blynyddol AGIC

Gweithio gydag eraill

Yr hyn sydd i'w gyflawni

Parhau â'n gwaith arolygu ar y cyd gydag asiantaethau'r DU
- Tua 16 o adolygiadau marwolaeth yn y ddalfa gyda'r Ombwdsmon Carchardai a Phrofiannaeth
- Hyd at 3 adolygiad ar y cyd â Gwasanaeth Carchardai EM a Gwasanaeth Prawf EM.

Mesurwyd drwy

- Nifer yr arolygiadau a gynhaliwyd

Parhau â'n gwaith ar y cyd ag asiantaethau eraill yn y DU ac yn rhyngwladol ar gydarolygu a dylanwadu ar arfer gorau

- Cymryd rhan mewn gwaith ar y cyd
- Atgyfnerthu canfyddiadau allweddol a themâu sy'n dod i'r amlwg ar wasanaethau ieuencid a welwyd gan aelodau Arolygu Cymru.

